# Cronfa Radio Cymunedol

## Nodiadau canllaw

Adolygwyd 04 Medi 2026 – Rhifyn 23

# Cynnwys

## Adran


1. Cyflwyniad ... 4
   Trosolwg ... 4
   Cefndir ... 4
   Crynodeb o'r Ffrydiau ... 5
2. Meini prawf a gofynion cymhwysedd cyffredinol ... 7
   Gofynion deiliad y drwydded ar gyfer y ddwy ffrwd ... 7
   Rhaid i wasanaethau fod yn darlledu ... 7
   Cyfrif banc pwrpasol ... 7
   Swyddog Cyfrifol Dynodedig (DRO) ... 8
   Ceisiadau ailadroddus a deiliaid grantiau presennol ... 8
   Trwyddedigion sy'n dal dau neu fwy o drwyddedau radio cymunedol ... 9
   Defnyddio'r grant i gefnogi lansiad gwasanaeth ... 9
   Gorsafoedd Cymunedol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ... 10
   Gofynion Cymorth Ariannol Isafswm (MFA) ... 10
3. Y Ffrwd Gynaliadwyedd ... 11
   Beth yw'r Ffrwd Gynaliadwyedd? ... 11
   Cyfnod ariannu ... 11
   Bid aml-flwyddyn ... 12
   Meini Prawf Cymhwysedd Cais Ffrwd Gynaliadwyedd ... 12
   Beth NAD yw'r Ffrwd Gynaliadwyedd yn ei gefnogi? ... 12
4. Y Ffrwd Offer ... 14
   Beth yw'r Ffrwd Offer? ... 14
   Cyfnod ariannu a chyfnod cadw ... 14
   Meini Prawf Cymhwysedd y Ffrwd Offer ... 14
   Beth NAD yw'r Ffrwd Offer yn ei gefnogi? ... 15
5. Y Broses Ymgeisio ... 17
   Gwybodaeth Ymgeisio ... 17
   Sut i wneud cais ... 17
   Cwblhau'r ffurflen gais ... 17
   Diogelu data ... 19
   Penderfyniadau Grant ... 19
   Gwybodaeth Ychwanegol ... 19
6. Rheoli Dyfarniadau ... 20

Cytundeb Grant....................................................................................................................20
Taliad Grant.........................................................................................................................20
Adrodd .................................................................................................................................21
Cadw Ffrwd Offer.................................................................................................................22
Rheoli newidiadau yn ystod cyfnod y grant.........................................................................22

# 1. Cyflwyniad

## Trosolwg

1.1 Nod y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth ac arweiniad i ddarpar ymgeiswyr y Gronfa Radio Gymunedol ("y Gronfa"). Mae'n cynnwys gwybodaeth am:

- Pwrpas y Gronfa
- Meini prawf cymhwysedd
- Y broses ymgeisio a dyfarnu

1.2 Dylai ymgeiswyr ddarllen y canllawiau hyn yn llawn cyn gwneud cais.

1.3 Diweddarwyd y ddogfen hon ym mis Gorffennaf 2026 er mwyn adlewyrchu ehangiad cwmpas y grantiau sydd ar gael yng ngoleuni Cynllun Gweithredu Cyfryngau Lleol y Llywodraeth.[1]

1.4 Gall unrhyw ran o'r nodiadau canllaw hyn (a'r ffurflenni cais perthnasol) gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. Felly, dylai darpar ymgeiswyr wirio'r adran berthnasol ar wefan Ofcom yn Y Gronfa Radio Cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf.

1.5 Mae'r Gronfa'n helpu i gefnogi cynaliadwyedd a thwf gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom, gan ddarlledu ar AM, FM, neu drwy drwydded C-DSP ar amlblecs radio digidol.

## Cefndir

1.6 Mae Ofcom yn gweinyddu'r Gronfa ar ran yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS"). Mae DCMS yn darparu dyraniad cyllid blynyddol i Ofcom a dyfernir grantiau i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom.

1.7 Bwriad y Gronfa yw cefnogi cynaliadwyedd gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom trwy ddarparu dyfarniadau ar gyfer costau rhedeg craidd ac mewn rhai achosion offer.

1.8 Cadarnhaodd Adran DCMS y bydd £900,000 yn cael ei ddyrannu i'r Gronfa yn 2026-27 a £1,000,000 yn y blynyddoedd ariannol 2027/28 a 2028/29 yr un.

1.9 Ar gyfer 2026/27 bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau ac yn gwneud dyfarniadau o dan y ffrydiau ariannol canlynol:

- Y Ffrwd Gynaliadwyedd
- Y Ffrwd Offer

1.10 Gellir dod o hyd i fanylion pellach am bob un o'r ffrydiau ariannu yn yr adrannau isod.

1.11 Gall gwasanaethau fod yn berthnasol i'r ddwy ffrwd yn amodol ar y meini prawf cymhwysedd cyffredinol fel y'u nodir yn adran 2, y mae angen eu darllen ar y cyd â'r

[1] Mae'r nodiadau canllaw wedi'u diweddaru i gynnwys newidiadau eglurhaol ar 4 Medi yn ymwneud â'r cyfrif banc penodedig (gweler paragraff 2.7) ac amserlenni adrodd (gweler paragraffau 6.8 i 6.17).

meini prawf cymhwysedd pwrpasol ar gyfer pob un o'r ffrydiau ariannu a nodir yn adran 3 (ar gyfer y Ffrwd Gynaliadwyedd) a adran 4 (ar gyfer y Ffrwd Offer).

1.12 Fel arfer, bydd un rownd ymgeisio, ac felly un set o ddyfarniadau grantiau, ym mhob blwyddyn ariannol, er bod Ofcom yn cadw'r hawl i roi cyllid mewn dwy rownd.

## Crynodeb o'r Ffrydiau

| | FFRWD OFFER | FFRWD CYNALIADWYEDD |
|---|---|---|
| **PWRPAS**[2] | Costau stiwdio ac offer trosglwyddo. Gan gynnwys costau i wella hygyrchedd. | Rolau swyddi neu brosiectau sy'n cefnogi cynaliadwyedd yr orsaf. |
| **YMGEISWYR CYMWYS** | Gwasanaethau Radio Cymunedol analog sydd wedi bod ar yr awyr ers 10 mlynedd a mwy. Rhaid bod ar yr awyr ar ddyddiad y cais. Ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog, dylai fod lleiafrif o bymtheg mis ar ôl ar y drwydded o'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am grant.[3] | Gorsafoedd Radio Cymunedol analog a gorsafoedd C-DSP sydd ar yr awyr ar ddyddiad y cais. Ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog, dylai fod lleiafrif o bymtheg mis ar ôl ar y drwydded o'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am grant.[4] |
| **UCHAFSWM DYFARNIAD** | £2,000 | £100,000 |
| **CYLLID BLWYDDYN AR GAEL** | Na | Oes, yn 26/27 bydd nifer cyfyngedig o ddyfarniadau aml-flwyddyn ar gael hyd at uchafswm o dair blynedd. |
| **CYNIGION AR Y CYD RHWNG TRWYDDEDEION AR GAEL** | Na | Ydi |
| **ENGHREIFFTIAU O WARIANT CYMWYS** | • Desgiau cymysgu<br>• Offer recordio fideo/sain<br>• Offer antena<br>• Ceblau porthi<br>• Meddalwedd chwarae<br>• Meicroffonau / clustffonau<br>• Capasiti gweinydd i storio cynnwys cerddoriaeth/ recordio/sain<br>• Offer cywasgu/recordio (naill ai'n gorfforol neu feddalwedd)<br>• Offer technegol neu offer arall sy'n cefnogi anghenion hygyrchedd gorsafoedd (e.e. | • Rheoli'r orsaf<br>• Codi arian i gefnogi'r orsaf (e.e. grantiau, cyllid masnachol)<br>• Gweinyddiaeth<br>• Rheoli ariannol ac adrodd<br>• Allgymorth cymunedol<br>• Trefnu a chefnogi gwirfoddolwyr |

[2] Lle mae'r Nodiadau Canllaw hyn yn cyfeirio at "pwrpas" grant, lle bo'n berthnasol, dylid darllen hyn hefyd i gynnwys offer, os yw'n ymwneud â grant Ffrwd Offer.

[3] Os nad oes pymtheg mis ar ôl ar eich trwydded, rhaid i chi wneud cais am estyniad cyn cyflwyno eich cais am grant.

[4] Os nad oes pymtheg mis ar ôl ar eich trwydded, rhaid i chi wneud cais am estyniad cyn cyflwyno eich cais am grant.

| | | |
|---|---|---|
| | er mwyn gwella hygyrchedd i'r stiwdio a galluogi pobl anabl i gymryd rhan lawn yng ngweithrediad, gweithgareddau ac allbwn yr orsaf.<br>• Unrhyw offer technegol arall y mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol | |

# 2. Meini prawf a gofynion cymhwysedd cyffredinol

2.1 Mae'r meini prawf a'r gofynion a nodir yn yr adran hon yn berthnasol i geisiadau o dan y Ffrwd Gynaliadwyedd a'r Ffrwd Offer. Dylai ymgeiswyr hefyd gyfeirio at adran 3 am feini prawf ychwanegol sy'n berthnasol i'r Ffrwd Gynaliadwyedd ac adran 4 am feini prawf ychwanegol sy'n berthnasol i'r Ffrwd Offer.

2.2 Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ymrwymo i gytundeb gydag Ofcom sy'n nodi'r telerau perthnasol; darllenwch y templed Cytundeb Grant ar dudalen Cronfa Radio Cymunedol am fanylion am hyn.

## Gofynion deiliad y drwydded ar gyfer y ddwy ffrwd

2.3 Gellir ond rhoi grantiau i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom. Nid yw gorsafoedd sydd wedi'u trwyddedu o dan Orchymyn Radio Cymunedol (Guernsey) 2013 yn gymwys i gael cyllid.

2.4 Ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog, dylai fod o leiaf bymtheg mis ar ôl ar y drwydded o'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am grant. Os oes llai na phymtheg mis ar ôl ar y drwydded, rhaid i'r trwyddedai fod wedi cyflwyno cais am estyniad i Ofcom erbyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau grant. Nid oes gan drwyddedau C-DSP ddyddiad gorffen.

2.5 Dim ond gan yr endid sy'n dal y drwydded y gellir cyflwyno ceisiadau, a'u dyfarnu iddynt.

## Rhaid i wasanaethau fod yn darlledu

2.6 Rhaid i'r gwasanaeth(au) perthnasol fod yn darlledu o ddyddiad y cais ac rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth(au) barhau i ddarlledu am hyd lawn y cyfnod gwariant perthnasol a/neu'r cyfnod cadw (fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Grant), os yw cais yn llwyddiannus. Mae hyn yn golygu darlledu ar DAB yn achos trwyddedai C-DSP a thrwy FM neu AM yn achos trwyddedai analog cymunedol, ond yn y pen draw mae hyn yn dibynnu ar y math o drwydded ac felly'r platfform(au) mewn perthynas â'r rhif(au) trwydded a nodir yn y Cytundeb Grant (gweler paragraffau 2.15 - 2.18 isod am ganllawiau i drwyddedai sy'n dal dau fath neu fwy o drwyddedau). Er mwyn osgoi amheuaeth, rydym yn ystyried nad yw gwasanaeth ar-lein yn unig yn gyfystyr â "darlledu"[5] at y dibenion hyn.

## Cyfrif banc penodedig

2.7 Bydd gofyn i'r ymgeisydd ddarparu cyfrif banc penodedig pwrpasol i ddal yr arian, os caiff ei ddyfarnu, a rhaid i'r endid sy'n dal y drwydded ddal y cyfrif hwn. Rhaid dal a rheoli'r arian drwy'r cyfrif banc penodedig pwrpasol am hyd gyfnod y grant (y cyfnod gwariant perthnasol a bennir yn y Cytundeb Grant). Bydd gofyn i'r Trwyddedai ddarparu'r wybodaeth, y cofnodion a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r cyfrif hwnnw i'r Swyddog Cyfrifol Dynodedig (gweler rhagor o enghreifftiau isod) ar unwaith, fel y gall y DRO ofyn yn rhesymol amdanynt, er mwyn rheoli'r grant a gwirio bod y grant wedi'i wario yn unol â'r Cytundeb Grant hwn. Gall hyn gynnwys datganiadau banc a thystiolaeth arall sy'n dangos

[5] Mae Adran 405 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn nodi bod "darlledu" yn golygu darlledu drwy delegraffiaeth ddiwifr. Nid yw gwasanaeth ar-lein yn unig ar gael felly.

bod y grant wedi'i wario yn unol ag awdurdodiad y DRO a bod unrhyw grant heb ei wario yn parhau i fod yn y cyfrif banc penodedig.)

## Swyddog Cyfrifol Dynodedig (DRO)

2.8 Bydd gofyn i bob ymgeisydd enwebu DRO (er enghraifft, cyfarwyddwr, ysgrifennydd cwmni, ymddiriedolwr neu uwch swyddog cyfatebol) ar y ffurflen gais a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio gwariant y grant.

2.9 Bydd angen i'r DRO lofnodi datganiad cyn y gallwn ryddhau'r arian:

- cydnabod cyfrifoldeb am oruchwylio gwariant y grant, gan gynnwys awdurdodi pob rhyddhad o arian grant o'r cyfrif banc penodedig (gyda chofnod priodol o'r awdurdodiad hwnnw'n cael ei gadw);
- cadarnhau mai dim ond at y dibenion a bennir yn y Cytundeb Grant y byddant yn awdurdodi gwariant;
- cadarnhau y bydd cofnodion priodol o wariant ac awdurdodiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r Cytundeb Grant a'u darparu i Ofcom ar gais;
- cadarnhau y byddant yn goruchwylio adrodd ar grantiau ac yn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno yn unol â'r Cytundeb Grant;
- cadarnhau y byddant yn hysbysu Ofcom o unrhyw beth sy'n oedi'n sylweddol neu'n effeithio fel arall ar wariant y grant ac o unrhyw newidiadau i wybodaeth y mae'r Trwyddedai wedi'i darparu i Ofcom gan gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r broses ymgeisio am grant.

## Ceisiadau ailadroddus a deiliaid grantiau presennol

2.10 Pan fydd dau rownd ariannu yn digwydd o fewn yr un flwyddyn ariannol, ni fydd gorsaf sydd wedi derbyn grant o dan ffrwd ariannu benodol yn y rownd gyntaf yn cael ei hystyried ar gyfer grant pellach o dan yr un ffrwd yn yr ail rownd. Fodd bynnag, gall y trwyddedai wneud cais am gyllid o dan ffrwd wahanol yn ystod yr un flwyddyn ariannol a gall ailymgeisio o dan y ffrwd wreiddiol mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol.

2.11 Ni all trwyddedai sydd wedi cael grant am sawl blwyddyn wneud cais am gyllid o dan yr un ffrwd tra byddant o fewn cyfnod gwariant perthnasol y grant.

2.12 Rhaid i drwyddedai sydd wedi cael grant mewn rownd ariannu flaenorol atodi gyda'u cais eu hadroddiad grant terfynol ar wariant y grant blaenorol hwnnw neu, os ydynt yn dal o fewn y cyfnod gwariant perthnasol, adroddiad ar y gwariant hyd yn hyn h.y. adroddiad interim. Rhaid i'r Trwyddedai ddefnyddio'r ffurflen adroddiad grant sydd ar gael ar dudalen Cronfa Radio Cymunedol ein gwefan. Gall methu â darparu'r adroddiad interim neu derfynol arwain at y Panel yn gwrthod eich cais.

2.13 Os yw deiliad grant blaenorol o'r Ffrwd Offer yn dymuno gwneud cais am grant o dan unrhyw ffrwd o Gronfa Radio Cymunedol, rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth ar

adeg y cais bod yr orsaf wedi cadw'r offer yn unol â'r Cytundeb Grant perthnasol. Y cyfnod cadw gofynnol ar gyfer offer yw pum mlynedd o ddyddiad y Cytundeb Grant perthnasol, oni nodir yn wahanol yn y Cytundeb Grant perthnasol neu os cytunwyd arno gan Ofcom.

2.14 Os na all yr ymgeisydd ddangos eu bod naill ai'n dal i ddal yr offer neu eu bod wedi'u cadw am y cyfnod hwn, efallai na fydd y Trwyddedai yn gymwys i wneud cais am gyllid pellach, neu dderbyn cyllid pellach o Gronfa Radio Cymunedol tan ddiwedd y cyfnod Cadw hwnnw.

## Trwyddedigion sy'n dal dau neu fwy o drwyddedau radio cymunedol

2.15 Gall rhai trwyddedigion ddal trwydded radio cymunedol analog ac un neu fwy o drwyddedau C-DSP, neu drwyddedau C-DSP lluosog. Dylai'r trwyddedigion hyn wneud un cais i'r Gronfa yn unig ond bod yn glir yn eu cais pa drwydded(au) y mae'r cyllid yn berthnasol iddynt.

2.16 Dim ond pan fo’r grant yn ymwneud â’i drwydded radio cymunedol analog neu ddigidol y mae trwyddedai sy’n darlledu ei wasanaeth radio cymunedol ar yr un pryd gan ddefnyddio trwydded DSP yn gymwys i wneud cais am y Gronfa. Ni fydd ceisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedau DSP nad ydynt yn drwyddedau C-DSP yn gymwys.

2.17 Os oes gennych gwestiynau penodol am y cyfyngiadau sy'n berthnasol i ddeiliaid trwyddedau sydd â dau drwydded radio cymunedol neu fwy, mae'n bwysig eich bod yn ceisio eglurhad gan dîm y Gronfa Radio Cymunedol cyn i chi gyflwyno'ch cais, cyn y dyddiad cau, drwy'r manylion cyswllt a nodir isod.

2.18 Pan fo'r cais yn ymwneud â mwy nag un gwasanaeth radio cymunedol a ddarperir o dan drwyddedau lluosog a ddelir gan yr un trwyddedai:

- yn ei gais, dylai'r trwyddedai fod yn glir iawn ynghylch sut y byddai grant yn cael ei ddefnyddio ar draws y trwyddedau y mae’n eu dal. Er enghraifft, os bydd cais am grant i gefnogi rôl codi arian ar draws trwydded radio cymunedol analog a thrwydded C-DSP, dylai'r ymgeisydd egluro yn y cais y manteision a fyddai'n cael eu cynnig ar draws y ddau wasanaeth trwyddedig a sut y byddai'r rôl yn cefnogi'r ddau wasanaeth yn effeithiol;
- byddai angen i'r adroddiadau gorfodol y mae'n rhaid i drwyddedai eu cyflwyno yn ystod ac ar ôl y cyfnod grant ddangos tystiolaeth bod y grant wedi'i wario ar draws y trwyddedau a ddelir gan y trwyddedai, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd ar adeg y cais.

## Defnyddio'r grant i gefnogi lansiad gwasanaeth

2.19 Dim ond at ddiben talu costau y dyfarnwyd y grant hwnnw ar eu cyfer y gellir defnyddio grant, fel y nodir yn y Cytundeb Grant, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion eraill gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a lansiwyd yn ystod cyfnod y grant.

2.20 Yn benodol, mae'n bwysig nodi na ellir defnyddio cyllid i gefnogi lansio gwasanaeth C-DSP newydd hyd yn oed os oes gan yr ymgeisydd drwydded C-DSP eisoes ar gyfer y

gwasanaeth hwnnw. Mae hyn yn dal i fod yn wir hyd yn oed os mai dim ond rhan o'r cyllid fyddai'n cael ei ddefnyddio at y diben hwn.

## Gorsafoedd Cymunedol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru

2.21 Yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, pan fydd Ofcom yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant, rhaid iddo hefyd ystyried y canlynol:

a) pa effeithiau, os o gwbl (a p'un a yw'n gadarnhaol neu'n negyddol), y byddai dyfarnu grant yn ei gael ar:

  i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;

  ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

b) sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, ar:

  i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;

  ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

c) sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael llai o effeithiau andwyol ar:

  i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;

  ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.22 Yn unol â hynny, er mwyn cynorthwyo'r Panel i ystyried ceisiadau, gofynnir i unrhyw ymgeiswyr ar ran gorsafoedd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ddarparu gwybodaeth yn eu cais am effeithiau grant ar y Gymraeg, fel y nodir uchod.

2.23 Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

## Gofynion Cymorth Ariannol Isafswm (MFA)

2.24 Dyfernir pob grant ar y sail eu bod yn gymhorthdal Cymorth Ariannol Isafswm (MFA) o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

2.25 Rhaid i ymgeiswyr allu darparu cadarnhad ysgrifenedig na fydd derbyn y taliad yn fwy na throthwy cyfanswm MFA yr ymgeisydd o £315,000 wedi'i gronni dros y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi derbyn mwy na £315,000 minws gwerth y grant y gwnaed cais amdano mewn cymorthdaliadau MFA neu fathau eraill tebyg o gymorthdaliadau (gweler adran 42(8) o'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau) gan Ofcom neu unrhyw awdurdodau cyhoeddus eraill dros y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol.

2.26 Am ragor o wybodaeth, ewch at llywodraeth ym Mhennod 7 o Ganllawiau Statudol ar gyfer Cyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau'r Deyrnas Unedig.

# 3. Y Ffrwd Gynaliadwyedd

## Beth yw'r Ffrwd Gynaliadwyedd?

3.1 Mae'r Ffrwd Gynaliadwyedd yn darparu grantiau ar gyfer gweithgareddau sydd wedi cael eu cefnogi'n hanesyddol gan Gronfa Radio Gymunedol h.y. costau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol trwyddedig Ofcom, fel arfer trwy ariannu swyddi neu brosiectau sy'n hyrwyddo sefydlogrwydd ariannol a chynaliadwyedd hirdymor sy'n canolbwyntio ar:

- Rheoli'r orsaf
- Codi arian i gefnogi'r orsaf (e.e. grantiau, cyllid masnachol)
- Gweinyddiaeth
- Rheoli ariannol ac adrodd
- Allgymorth cymunedol
- Trefnu a chefnogaeth gwirfoddolwyr

3.2 Uchafswm y dyfarniad o unrhyw grant unigol o dan y Ffrwd Gynaliadwyedd yw £100,000[6]. Fodd bynnag, wrth ystyried y swm i wneud cais amdano, dylai ymgeiswyr ystyried datganiadau Panel Cronfa Radio Cymunedol ar rowndiau blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys rhestr o grantiau blaenorol, y cyfartaledd a roddwyd yn y rownd benodol, a 'materion o bwys codi o gyfarfod y Panel'.

3.3 Mae'r datganiadau ar dudalen y Gronfa Radio Gymunedol ar ein gwefan o dan y pennawd 'dyfarnu grantiau diweddar'.

3.4 Bydd angen i ymgeiswyr gyfiawnhau pam eu bod yn gofyn am y swm grant y maent wedi gwneud cais amdano ac egluro beth fyddent yn ei wneud pe na fyddant yn derbyn cyfanswm y cyllid y gofynnwyd amdano.

3.5 Yn ogystal, fel yr eglurwyd ym mharagraffau 2.24 – 2.26 uchod, dyfernir pob grant ar y sail eu bod yn gymhorthdal MFA o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ac felly, cyn gwneud y taliad, byddwn yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig na fydd derbyniad y taliad yn fwy na'r trothwy MFA o £315,000 wedi'i gronni dros y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Felly, rhaid i chi sicrhau y bydd y swm a geisir yn eich cadw o fewn y trothwy hwnnw.

3.6 Gall dau neu fwy o Drwyddedai gyflwyno cynigion ar y cyd, er enghraifft i gyd-ariannu swydd a rennir. Fodd bynnag, dylid enwebu un Trwyddedai i reoli'r grant, a bydd yn cael ei dalu i'r cwmni hwnnw (ac ni chaiff ei rannu rhwng dau neu fwy).

## Cyfnod ariannu

3.7 Gall ymgeiswyr wneud cais am:

- grant untro sy'n para hyd at 14 mis

[6] Am wybodaeth am ofynion Gymorth Ariannol Isafswm (MFA) a chyllid anghymwys, gweler paragraffau 2.24, 2.25, 2.26, 3.5 a 4.4 yn y drefn honno.

- cais ar y cyd[7] sy'n para hyd at 14 mis; neu

  cais aml-flwyddyn sy'n para hyd at 2 neu 3 blynedd, yn dibynnu ar ba flwyddyn ariannol y maent yn gwneud cais ynddi.

## Bid aml-flwyddyn

3.8 Gall ymgeiswyr ofyn am gyllid am gyfnod aml-flwyddyn o hyd at dair blynedd yn rownd 26/27 a hyd at ddwy flynedd yn rownd 27/28. Rhaid nodi'r bwriad hwn yn benodol yn y ffurflen gais, ynghyd â chyfiawnhad dros y cais aml-flwyddyn wedi'i ategu gan gostau manwl a chynllun gwaith clir. **Dim ond swm cyfyngedig o gyllid sydd ar gael ar gyfer cyllid aml-flwyddyn, felly mae angen dangos ceisiadau'n glir a'u cyfiawnhau'n llawn.**

3.9 Bydd gofyn i dderbynwyr dyfarniadau aml-flwyddyn gyflwyno adroddiadau interim lluosog drwy gydol y cyfnod gwariant perthnasol yn unol â'r amserlen adrodd a nodir yn y Cytundeb Grant.

## Meini Prawf Cymhwysedd Cais Ffrwd Gynaliadwyedd

3.10 Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno gofyn am gyllid o dan y Ffrwd Gynaliadwyedd nodi'r meini prawf a'r gofynion cyffredinol yn adran 2 uchod, yn ogystal â'r rhai a grybwyllir isod.

3.11 Mae pob gorsaf radio gymunedol sydd wedi'i thrwyddedu i ddarlledu ar AM ac FM, yn ogystal â gorsafoedd C-DSP, sydd wedi'u trwyddedu o dan Orchymyn Radio Digidol Cymunedol a Phlethiad Radio ar Raddfa Fach 2019, yn gymwys i gael grantiau o'r Ffrwd Gynaliadwyedd.

3.12 Dim ond am un o'r cyfnodau a nodir ym mharagraff 3.7 y gall ymgeiswyr wneud cais am y grant Ffrwd Gynaliadwyedd.

3.13 Dylai ymgeiswyr nodi'r rhestr o eitemau ym mharagraff 3.14 na ellir eu cefnogi gan y grant Ffrwd Gynaliadwyedd.

## Beth NAD yw'r Ffrwd Gynaliadwyedd yn ei gefnogi?

3.14 Ni ellir cymhwyso grantiau a ddyfarnir o dan y Ffrwd Gynaliadwyedd i'r canlynol:

- Gwariant cyfalaf
- Costau cerbydau
- Treuliau gwirfoddoli
- Cost atgyweirio, adeiladu neu gynnal a chadw adeiladau
- Costau rhaglennu neu farchnata
- Biliau cyfleustodau
- Taliadau rhent a/neu forgais

[7] Ceisiadau ar y cyd yw ceisiadau a gyflwynir gan ddau neu fwy o drwyddedai sy'n ceisio cyllid ar gyfer swydd neu fenter a rennir.

- Ffioedd trwydded neu ffioedd hawlfraint (fel ffioedd PPL/PRS neu feddalwedd)
- Ffioedd sy'n daladwy i Ofcom (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffioedd cais a thrwydded)
- Grantiau ôl-weithredol h.y. i dalu am wariant a gafwyd eisoes
- Costau sy'n gysylltiedig â lansio gorsaf radio
- Costau sy'n ymwneud â gwasanaethau a gyflawnir yn unol â math arall o drwydded a ddelir gan y trwyddedai h.y. amlblecs radio digidol ar raddfa fach
- Ad-dalu benthyciadau
- Cyflogau neu gostau cyfarwyddwyr cwmnïau
- Costau Gweinyddol / Ffioedd gweinyddu cyflogaeth[8]
- Costau ymgynghorydd technegol
- Costau a ad-dalwyd neu i'w had-dalu gan gyllid gan awdurdodau cyhoeddus eraill neu o'r sector preifat
- Taliadau llog (gan gynnwys taliadau tâl gwasanaeth ar gyfer prydlesi cyllid)
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau
- Trethi Corfforaeth

[8] Mae ffioedd rheoli a gweinyddu yn gostau sy'n gysylltiedig â llywodraethu, goruchwylio a gweinyddu dyddiol y grant neu ddeiliad y swydd. Mae hyn yn cynnwys ffioedd rheoli, gweinyddu swyddfa a threuliau cyffredinol sefydliadol eraill.

# 4. Y Ffrwd Offer

## Beth yw'r Ffrwd Offer?

4.1 Mae'r Ffrwd Offer i gefnogi gorsafoedd radio cymunedol analog sydd wedi bod yn darlledu ers 10 mlynedd neu fwy gyda chostau offer stiwdio a darlledu. Mae hyn yn cynnwys costau i wella hygyrchedd.

4.2 Bwriad y Ffrwd Offer yw gwella hygyrchedd a chefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau cymunedol analog drwy grant bach untro i gefnogi costau tuag at:

- Desgiau cymysgu
- Offer recordio fideo/sain
- Offer antena
- Ceblau porthi
- Meddalwedd chwarae
- Meicroffonau / clustffonau
- Capasiti gweinydd i storio cynnwys cerddoriaeth/recordio/sain
- Offer cywasgu/recordio (naill ai'n gorfforol neu'n feddalwedd)
- Offer technegol neu offer arall sy'n cefnogi anghenion hygyrchedd gorsafoedd (e.e. i gynorthwyo stiwdio mynediad gwirfoddolwyr/rheolwyr gorsafoedd anabl i gynhyrchu cynnwys gorsafoedd)
- Unrhyw offer technegol arall y mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol[9]

4.3 Y dyfarniad cyllid uchaf ar gyfer y Ffrwd Offer yw £2,000 fesul orsaf[10]. Gall ymgeiswyr wneud cais am sawl eitem o offer, ar yr amod nad yw cyfanswm y gost yn fwy na £2,000.

4.4 Yn ogystal, fel yr eglurwyd ym mharagraffau 2.24 – 2.26 uchod, dyfernir pob grant ar y sail eu bod yn gymhorthdal MFA o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ac felly, cyn gwneud y taliad, Bydd angen cadarnhad ysgrifenedig arnom na fydd derbyniad y taliad yn fwy na throthwy'r MFA o £315,000 wedi'i gronni dros y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Felly, rhaid i chi sicrhau y bydd y swm a geisir yn eich cadw o fewn y trothwy hwnnw.

## Cyfnod ariannu a chyfnod cadw

4.5 Bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cael cyllid o dan y Ffrwd Offer brynu'r offer o fewn tri mis i'r grant gael ei ddyfarnu a chadw'r offer am o leiaf bum mlynedd o ddyddiad y Cytundeb Grant perthnasol, oni nodir yn wahanol yn y Cytundeb Grant perthnasol neu y cytunwyd arno gan Ofcom.

## Meini Prawf Cymhwysedd y Ffrwd Offer

[9] Er enghraifft, offer a fwriadwyd i gefnogi anghenion hygyrchedd, neu i alluogi gweithgareddau fel recordio cyfweliadau, cynhyrchu cynnwys rhaglenni, a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â darlledu.

[10] Gweler paragraffau 4.2 i 4.11 am gyllid cymwys ac anghymwys.

4.6 Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno gofyn am gyllid o dan y Ffrwd Offer nodi'r meini prawf a'r gofynion cyffredinol yn adran 2 uchod yn ogystal â'r rhai a grybwyllir isod.

4.7 Dim ond gwasanaethau sydd wedi bod yn darlledu ar FM neu AM am 10 mlynedd neu fwy gyda'i gilydd ar adeg agor y rownd ymgeisio sy'n gymwys i wneud cais am gyllid. Cyfrifir nifer y blynyddoedd y mae gwasanaeth wedi bod yn darlledu o'r "dyddiad cychwyn" fel y nodir yn y drwydded berthnasol ac sydd hefyd yn cyfateb i'r dyddiad "ar yr awyr" a ddangosir yn erbyn pob trwydded radio cymunedol ar wefan Ofcom yn Ofcom | Gorsafoedd Radio Cymunedol.

4.8 Rhaid i drwyddedeion ddarparu tystiolaeth o dri dyfynbris, a gafwyd fis ar y mwyaf cyn y cais, ar gyfer yr eitem(au) arfaethedig y ceisir cyllid ar eu cyfer. Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys e-byst cyflenwyr, dolenni ac unrhyw ddull arall sy'n dangos dilysrwydd a chostau'r eitem(au) arfaethedig.

4.9 Rhaid i drwyddedeion sydd o fewn y 'Cyfnod Cadw' o hyd, fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Grant, ar gyfer dyfarniad Ffrwd Offer blaenorol ddarparu tystiolaeth gydag unrhyw gais newydd, neu pan ofynnir fel arall gan Ofcom, i ddangos bod yr offer yn dal i gael ei gadw gan y trwyddedai. Os na ellir darparu tystiolaeth neu os na fydd y trwyddedai yn cadw'r eitem am hyd gyfan y 'Cyfnod Cadw', efallai na fydd y trwyddedai yn gymwys i wneud cais am, neu dderbyn, cyllid pellach o’r Gronfa Radio Cymunedol tan ddiwedd y Cyfnod Cadw hwnnw. Fel arfer ni fydd yn cael ei ystyried ar gyfer dyfarniad pellach o dan y Ffrwd Offer a'r Ffrwd Gynaliadwyedd am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad y Cytundeb Grant y dyfarnwyd y cyllid offer blaenorol oddi tano. Gall Ofcom hefyd geisio mynnu ad-daliad o'r grant perthnasol a wnaed yn flaenorol.

4.10 Atgoffir ymgeiswyr i nodi'r rhestr o eitemau ym mharagraff 4.11 na ellir eu cefnogi drwy'r Gronfa Ffrwd Offer.

## Beth NAD yw'r Ffrwd Offer yn ei gefnogi?

4.11 Dim ond ar gyfer offer y gellir defnyddio grantiau a ddyfernir o dan y Ffrwd Offer ac ni ellir eu defnyddio ar gyfer y canlynol:

- Costau cerbydau
- Treuliau gwirfoddolwyr
- Cost atgyweirio, adeiladu neu gynnal a chadw adeiladau
- Costau rhaglennu neu farchnata
- Biliau cyfleustodau
- Taliadau rhent a/neu forgais
- Ffioedd trwydded neu ffioedd hawlfraint (fel ffioedd PPL/PRS neu feddalwedd)
- Ffioedd sy'n daladwy i Ofcom (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffioedd gwneud cais a thrwydded)
- Grantiau ôl-weithredol h.y. i dalu am wariant a gafwyd eisoes
- Costau sy'n gysylltiedig â lansio gorsaf radio
- Costau sy'n ymwneud â gwasanaethau a gyflawnir yn unol â math arall o drwydded a ddelir gan y trwyddedai h.y. amlblecs radio digidol ar raddfa fach
- Ad-dalu benthyciadau

- Cyflogau neu gostau cyfarwyddwyr cwmnïau
- Costau Gweinyddol / gweinyddu cyflogaeth[11]
- Costau ymgynghorydd technegol
- Costau a ad-dalwyd neu i'w had-dalu gan gyllid gan awdurdodau cyhoeddus eraill neu o'r sector preifat
- Taliadau llog (gan gynnwys taliadau tâl gwasanaeth ar gyfer prydlesi cyllid)
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau
- Trethi Corfforaethol

[11] Mae ffioedd rheoli a gweinyddu yn gostau sy'n gysylltiedig â llywodraethu, goruchwylio a gweinyddu dyddiol y grant neu ddeiliad y swydd. Mae hyn yn cynnwys ffioedd rheoli, gweinyddu swyddfa a threuliau cyffredinol sefydliadol eraill.

# 5. Y Broses Ymgeisio

## Gwybodaeth Ymgeisio

5.1 Cyhoeddir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ar gyfer pob rownd ariannu ar wefan Ofcom.

5.2 Ni fydd ceisiadau a dogfennau ategol a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried (yn amodol ar baragraff 5.19 o'r canllawiau hyn).

## Sut i wneud cais

5.3 Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cyflwyno eu cais gan ddefnyddio'r **fersiwn ddiweddaraf** o ffurflen gais Cronfa Radio Gymunedol, a gyhoeddwyd ar wefan Ofcom. Ni dderbynnir ceisiadau a gyflwynir gan ddefnyddio fersiynau hen o'r ffurflen.

5.4 Lawrlwythwch y ffurflen gais o wefan Ofcom. Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu'r Saesneg ac mae ffurflenni cais yn y ddwy iaith ar gael ar y wefan. Dylai ceisiadau wedi'u cwblhau ac unrhyw ddogfennaeth ategol briodol gyrraedd Ofcom erbyn 5pm ar y dyddiad cau a hysbysebir.

5.5 Rydym yn argymell eich bod yn cyflwyno eich cais trwy e-bost i communityradiofund@ofcom.org.uk. Dylai'r ffurflen gais a'r ddogfennaeth ategol fod ar ffurf Word, RTF neu Excel, yn hytrach na PDF. Ni allwn dderbyn e-byst gydag atodiadau html ac ni fydd unrhyw negeseuon e-byst gyda ffeiliau html yn cael eu danfon. Ni all ein system e-bost dderbyn e-byst gydag atodiadau sy'n fwy na 10 Megabeit, felly os yw'r cais a'r dogfennau ategol yn fwy na'r maint hwn, dylid anfon unrhyw ddogfennaeth ategol mewn e-bost neu e-byst ar wahân, pob un ohonynt o dan 10Mbs. Cysylltwch â'r tîm cyn diwrnod y dyddiad cau os oes gennych unrhyw broblemau.

5.6 Os oes rheswm cymhellol pam na all yr ymgeisydd gyflwyno'r ffurflen gais a/neu'r dogfennau ategol drwy e-bost, rhaid i chi gysylltu ag Ofcom o leiaf wythnos ymlaen llaw cyn cyflwyno'r cais i drafod hyn ac o leiaf wythnos cyn unrhyw ddyddiad cau.

5.7 I gysylltu â thîm Cronfa Radio Gymunedol, ffoniwch: 0207 981 3002, neu e-bostiwch: communityradiofund@ofcom.org.uk. Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn, bydd angen i chi adael neges llais a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl.

## Cwblhau'r ffurflen gais

5.8 Mae'r Panel yn dibynnu ar y ffurflen gais er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant. Felly, mae'n bwysig bod y ffurflen gais yn cynnwys digon o fanylion fel y gall y Panel ddeall yr orsaf a'r rhesymau pam mae ymgeisydd yn ceisio grant. Yn yr adran hon rydym yn darparu rhywfaint o ganllawiau ychwanegol ynghylch sut y dylech gwblhau'r gwahanol adrannau yn y ffurflen gais.

5.9 Dylech ddarparu eich manylion cyswllt ar dudalen flaen y ffurflen. Er mwyn sicrhau bod rhywun sydd â'r awdurdod priodol yn derbyn y Cytundeb Grant i'w lofnodi, rydym yn gofyn am wybodaeth am gyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni neu, yn achos unrhyw sefydliad arall, y person perthnasol sydd ag awdurdod, ar dudalen flaen y ffurflen gais. Mae angen i bob ymgeisydd nodi eu DRO enwebedig (er enghraifft, cyfarwyddwr,

ysgrifennydd cwmni, ymddiriedolwr neu uwch swyddog cyfatebol) ar y ffurflen gais a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio gwariant grant. Gall hwn fod yr un person sy'n llofnodi'r Cytundeb Grant (gweler paragraffau 2.8 – 2.9 uchod am ragor o wybodaeth).

5.10 Yn adran 2, mae cwestiynau 2.1 - 2.3 o'r ffurflen gais yn gofyn am enw eich cwmni a rhif eich cwmni (fel y'u ceir ar Dŷ'r Cwmnïau), lle bo'n berthnasol, a rhif(au) y drwydded, enw a lleoliad yr orsaf(au) yr hoffech iddynt elwa o'r grant, os cânt eu dyfarnu. Os cyflwynir cais ar y cyd, dylid enwebu un Trwyddedai fel y prif gyswllt o fewn y ffurflen gais. Bydd y Trwyddedai hwn yn gyfrifol am reoli'r grant a dylai hefyd gwblhau'r datganiad ym mharagraff 7 o'r ffurflen gais. Rhaid darparu, lle bo'n berthnasol, unrhyw ddogfennau gorfodol a restrir ym mharagraff 8.1 o'r ffurflen gais ar gyfer y ddau Drwyddedai.

5.11 Yn adran 3, dylech nodi cyfanswm y grant yr ydych yn gwneud cais amdano. Byddwch yn glir ac yn gryno ynghylch yr hyn y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer yng nghwestiwn 3.2 - 3.3. Os ydych yn gwneud cais am grant at fwy nag un diben neu orsaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn glir ynghylch pa ddiben a/neu orsaf y mae eich atebion yn ymwneud â hi.

5.12 Yn adran 4, cwestiwn 4.3, dylai ymgeiswyr ddarparu manylion unrhyw incwm a gwariant cyfredol ynghyd â newidiadau sylweddol disgwyliedig yn amgylchiadau'r orsaf, megis newidiadau i sefyllfa ariannol yr orsaf nad ydynt efallai'n amlwg yn y cyfrifon cyhoeddedig diweddaraf.

5.13 Wrth ystyried y ceisiadau a gyflwynir, bydd y Panel yn cael gwybod am hanes cydymffurfio Trwyddedeion sy'n gwneud cais am gyllid dros y pum mlynedd flaenorol, a gall ystyried hanes cydymffurfio'r Trwyddedeion hynny, o ran ei gydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded a chydymffurfiaeth â Chytundebau Grant Ofcom blaenorol. Er enghraifft, gellir ystyried methu â chyflwyno adroddiadau perthnasol yn unol â Chytundeb Grant blaenorol a gall arwain at wrthod eich cais. O'r herwydd, mae cwestiwn 4.8 o'r ffurflen gais yn rhoi cyfle i'r Trwyddedai ddarparu unrhyw sylw a allai fod ganddo ynghylch ei hanes o gydymffurfiaeth ag amodau ei drwydded(au) darlledu a thelegraffig diwifr, yn ogystal â'i gydymffurfiaeth ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth grantiau blaenorol o Gronfa Radio Cymunedol.

5.14 Yn adran 5, ar gyfer y Ffrwd Gynaliadwyedd, rhowch wybodaeth am bwrpas ac amcanion y grant ar gyfer yr orsaf(au). Mae'r Panel eisiau deall beth rydych chi'n ei wneud, pwy rydych chi'n ei wasanaethu, beth rydych chi wedi'i gyflawni hyd yn hyn a beth rydych chi'n ceisio'i gyflawni yn eich cymuned. Darparwch amserlen ar gyfer gwariant y grant ac os yw'r cyllid a geisir ar gyfer staff, dylid darparu disgrifiad(au) swydd a dadansoddiad ariannol rhwng cyflog a chostau'r cyflogwr ei hun (megis yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr). Defnyddir y cwestiynau hyn i ddiffinio pwrpas y grant a nodir yn y Cytundeb Grant.

5.15 Gellir cyflwyno cais at fwy nag un diben (dylid cynnwys manylion ar yr un ffurflen). Os nodir mwy nag un diben grant, dylai ymgeiswyr nodi blaenoriaeth pob un trwy eu rhestru yn nhrefn eu pwysigrwydd. Gall y Panel roi grant i ymgeisydd i ariannu mwy nag un diben, fodd bynnag, mae'r flaenoriaeth gymharol y mae'r Panel yn ei rhoi i unrhyw ddiben yn ôl disgresiwn llwyr y Panel.

5.16 Rydm hefyd angen gwybodaeth am gyllideb a chyllid yr orsaf arnom hefyd i'n helpu i ddeall anghenion yr ymgeisydd. Ar gyfer gorsafoedd sydd wedi'u lleoli yng

Nghymru, darparwch y wybodaeth ychwanegol a nodir uchod ynghylch effeithiau grant ar yr iaith Gymraeg.

5.17 Dim ond y canlynol y gall gwybodaeth ychwanegol a gyflwynir cynnwys: disgrifiadau swyddi, manylebau person, cynllun gwaith, cyllideb weithredu, cyfrifon cwmni (neu gyfwerth), adroddiad grant, neu dystiolaeth o gadw offer.

5.18 Os oes gennym unrhyw ymholiadau am y wybodaeth a dderbyniwyd, efallai y byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd am eglurhad. Ni ellir cyflwyno unrhyw wybodaeth newydd ar ôl y dyddiad cau ac eithrio'r hyn a ofynnwyd amdano gan Ofcom (ac eithrio newid ym manylion cyswllt yr ymgeisydd, cyfrif banc penodedig a DRO).

5.19 Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu angen addasiadau rhesymol, cysylltwch â ni dros y ffôn: 0207 981 3002, neu e-bost: communityradiofund@ofcom.org.uk. Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn, bydd angen i chi adael neges llais a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl i drafod eich cwestiwn.

## Diogelu data

5.20 Bydd unrhyw ddata personol a ddarperir at ddibenion eich cais yn cael ei drin yn unol â'n Datganiad Preifatrwydd Cyffredinol.

5.21 Bydd ceisiadau i'r Gronfa yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni fyddant fel arfer yn cael eu cyhoeddi. Os bydd yn ofynnol yn gyfreithiol arnom i gyhoeddi unrhyw wybodaeth, neu os ystyriwn ei bod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau, byddwn fel arfer yn esbonio ein bwriad i ddatgelu'r wybodaeth yn gyntaf (gan gynnwys y cyd-destun yr ydym yn bwriadu ei datgelu ynddo) ac yn rhoi’r cyfle i chi wneud sylwadau am y datgeliad arfaethedig.

## Penderfyniadau Grant

5.22 Bydd Panel Cronfa Radio Cymunedol Ofcom yn ystyried yr holl geisiadau a fyddent yn gwneud y penderfyniad a ddylid dyfarnu grant i ymgeisydd a faint i'w ddyfarnu. Mae penderfyniadau'r Panel yn derfynol. Mae rhagor o wybodaeth am y Panel ar ein gwefan.

5.23 Byddwn yn hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad y rownd dyfarnu ceisiadau. Bydd hysbysiad yn cael ei roi i'r cyswllt a roddir ar y ffurflen gais. Cyhoeddir adborth cyffredinol ar y rhesymau pam na lwyddodd y ceisiadau mewn datganiad am y dyfarniadau.

5.24 Bydd penderfyniadau ar ddyfarniadau yn cael eu cyhoeddi drwy wefan Ofcom. Cyhoeddir derbynnydd y grant, swm y dyfarniad a phwrpas y grant.

## Gwybodaeth Ychwanegol

5.25 Gall pwrpas a chwmpas grantiau o'r Gronfa amrywio o flwyddyn i flwyddyn a gall y Nodiadau Canllaw hyn gael eu hamrywio yn unol â hynny. Gall y Nodiadau Canllaw hyn newid yn y dyfodol. Cynghorir ymgeiswyr i wirio gwefan Ofcom am y fersiwn ddiweddaraf o'r Nodiadau Canllaw a'r ffurflen gais.

# 6. Rheoli Dyfarniadau

## Cytundeb Grant

6.1 Mae grant yn amodol ar ymgeisydd llwyddiannus

- yn llofnodi Cytundeb Grant Cronfa Radio Cymunedol ("Cytundeb Grant");
- yn darparu datganiad wedi'i lofnodi gan ei DRO; a'n
- darparu datganiad wedi'i lofnodi yn cadarnhau na fydd derbyn grant gan Gronfa Radio Cymunedol yn achosi i'r sefydliad ragori ar y trothwy MFA o £315,000, wedi'i gyfrifo dros y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol[12].

6.2 Anfonir y Cytundeb Grant, y datganiad DRO templed a'r datganiad MFA templed **drwy e-bost** (neu ddulliau eraill y cytunwyd arnynt gyda'r ymgeisydd) at yr ymgeisydd llwyddiannus i'w llofnodi.

6.3 Wrth lofnodi'r Cytundeb Grant, rhaid i'r ymgeisydd hefyd gwblhau manylion sy'n ymwneud â'r cyfrif banc penodedig yn Atodiad 3 i'r Cytundeb Grant. Fel rhan o'r broses hon, gofynnir am fanylion y cyfrif banc penodedig hefyd drwy ffurflen (byddwn yn trafod sut i ddelio â hyn gyda cheiswyr post sydd angen addasiadau rhesymol). Wrth ymrwymo i'r Cytundeb Grant, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cadarnhau ei fod yn derbyn y grant ar y sail y bydd at y diben a ddisgrifir yn yr Atodiad i'r Cytundeb Grant, ac yn unol â'r holl amodau a nodir yn y Cytundeb Grant. Am wybodaeth am gyfrifoldebau a thelerau eraill y grant, gweler y templed Cytundeb Grant, sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Ofcom.

6.4 Fel arfer, rydym yn defnyddio Adobe Sign i lofnodi'r dogfennau Cytundeb Grant ac i gasglu manylion cyfrif y banc penodedig a restrir uchod, sydd ond angen porwr gwe a chyfeiriad e-bost. Bydd cyfarwyddiadau ar sut y bydd hyn yn gweithio wedi'u nodi yn yr e-bost sy'n hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus am ganlyniad y rownd dyfarnu'r ceisiadau.

## Taliad Grant

6.5 Ar ôl i'r Cytundeb Grant, y datganiad DRO ac MFA a'r ffurflen manylion banc gael eu dychwelyd i'r Tîm, gwneir trefniadau i drosglwyddo'r grant drwy BACS i gyfrif banc penodedig derbynnydd y grant.

6.6 Rhaid i Ofcom dalu grantiau am gyfnod o flwyddyn neu lai i dderbynnydd y grant yn y flwyddyn ariannol y gwneir y dyfarniad ynddi a rhaid i dderbynnydd y grant eu gwario o fewn amser penodedig (a nodir ym mhob Cytundeb Grant unigol).

6.7 Ar gyfer dyfarniadau Ffrwd Gynaliadwyedd aml-flwyddyn, telir y grant mewn rhandaliadau, yn amodol ar dderbyn a chymeradwyo adroddiadau interim. Cytunir ar amserlen dalu gan

[12] Gweler paragraffau adran 2.24 – 2.26 ar ofynion MFA.

Ofcom a'i darparu i'r Trwyddedai ar ddechrau'r Cytundeb Grant. Dim ond ar ôl i Ofcom adolygu a chymeradwyo'r adroddiadau interim perthnasol (a drafodir ymhellach isod) ac unrhyw dystiolaeth ategol a ofynnir, gan gynnwys datganiadau banc, anfonebau a dogfennaeth atodol arall, y caiff rhandaliadau dilynol eu rhyddhau.

## Adrodd

**Ffrwd Offer**

6.8 Bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cael cyllid o dan y Ffrwd Offer ddarparu adroddiad prawf prynu ar gyfer yr offer o fewn pedair wythnos o ddiwedd y cyfnod gwariant perthnasol.

6.9 Os nad yw'r offer wedi'i brynu o fewn y cyfnod gwariant perthnasol, bydd gofyn i'r ymgeisydd ddychwelyd yr arian i Ofcom. Bydd gofyn dychwelyd unrhyw danwariant hefyd.

6.10 Mae darparu'r adroddiadau hyn yn amod pwysig o'r Cytundeb Grant. Rhaid i dderbynwyr grantiau ddefnyddio'r ffurflen adroddiad grant Ffrwd Offer sydd ar gael ar wefan Ofcom ac atodi prawf prynu perthnasol.

6.11 Rhaid i ddeiliad y grant gyflwyno adroddiad nad yw'n gyfrinachol i Ofcom, a chaiff Ofcom gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan er mwyn tryloywder. Rhaid i dderbynwyr grantiau ddefnyddio'r ffurflen adroddiad grant anghyfrinachol sydd ar gael ar wefan Ofcom.

6.12 Os nad yw unrhyw grant wedi'i wario yn unol â'r diben penodedig (e.e. ar gyfer yr offer penodedig), neu os nad yw derbynnydd grant wedi cydymffurfio â'r Cytundeb Grant fel arall, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu adroddiadau i Ofcom fel y nodir uchod, caiff Ofcom fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu ac ni fydd fel arfer yn ystyried rhoi grant pellach i'r derbynnydd hwnnw am bum mlynedd o ddyddiad y Cytundeb Grant blaenorol y dyfarnwyd y cyllid blaenorol oddi tano. Ni chaniateir newidiadau i ddiben y grant/offer dynodedig ar ôl i'r Cytundeb Grant gael ei lofnodi oni bai bod y Panel wedi cymeradwyo ymlaen llaw.

**Ffrwd Gynaliadwyedd**

6.13 Bydd yn ofynnol i dderbynwyr y grant untro sy'n para hyd at 14 mis a grantiau cais ar y cyd sy'n para hyd at 14 mis, fel amod o'r Cytundeb Grant, adrodd ar sut y mae'r arian wedi'i wario hanner ffordd drwy gyfnod y grant (h.y. cyflwyno adroddiad interim) ac ar ôl i'r cyfnod gwariant perthnasol ddod i ben (h.y. cyflwyno adroddiad terfynol).

6.14 Bydd yn ofynnol i dderbynwyr dyfarniadau aml-flwyddyn gyflwyno sawl adroddiad interim drwy gydol cyfnod y grant yn unol ag amserlen adrodd a osodwyd gan Ofcom

yn y Cytundeb Grant, ac adroddiad terfynol ar ôl i'r cyfnod gwariant perthnasol ddod i ben.

6.15 Mae darparu'r adroddiadau hyn yn amod pwysig o'r Cytundeb Grant. Rhaid i dderbynwyr grantiau ddefnyddio'r ffurflen adroddiad grant Cynaliadwyedd Ffrwd sydd ar gael ar wefan Ofcom.

6.16 Rhaid i ddeiliad y grant gyflwyno adroddiad terfynol nad yw'n gyfrinachol i Ofcom, a chaiff Ofcom gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan er mwyn tryloywder. Rhaid i dderbynwyr grantiau ddefnyddio'r ffurflen adroddiad grant nad yw'n gyfrinachol sydd ar gael ar wefan Ofcom.

6.17 Os nad yw unrhyw grant wedi'i wario yn unol â'r diben penodedig (e.e. ar gyfer yr offer penodedig), neu os nad yw derbynnydd grant wedi cydymffurfio â'r Cytundeb Grant fel arall, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu adroddiadau i Ofcom fel y nodir uchod, gall Ofcom fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu ac ni fydd fel arfer yn ystyried rhoi grant pellach i'r derbynnydd hwnnw am bum mlynedd o ddyddiad y Cytundeb Grant blaenorol y dyfarnwyd y cyllid blaenorol oddi tano. Ni chaniateir newidiadau i ddiben y grant ar ôl i'r Cytundeb Grant gael ei lofnodi oni bai bod y Panel wedi cymeradwyo ymlaen llaw.

## Cadw Ffrwd Offer

6.18 Os yw deiliad grant blaenorol o'r Ffrwd Offer yn dymuno gwneud cais am grant pellach o dan unrhyw ffrwd o Gronfa Radio Cymunedol, rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth ar adeg y cais bod yr orsaf wedi cadw'r offer yn unol â'r Cytundeb Grant perthnasol. Y cyfnod cadw gofynnol ar gyfer offer yw pum mlynedd o ddyddiad y Cytundeb Grant perthnasol. Os na all yr ymgeisydd ddangos eu bod naill ai'n dal i ddal yr offer neu fod yr offer wedi'i gadw am y cyfnod hwn, efallai na fyddant yn gymwys i gael rhagor o gyllid gan Gronfa Radio Cymunedol tan ddiwedd y Cyfnod Cadw hwnnw.

## Rheoli newidiadau yn ystod cyfnod y grant

6.19 Os oes angen unrhyw newidiadau i'r Cytundeb Grant, cyfrifoldeb y trwyddedai yw cysylltu ag Ofcom cyn gynted â phosibl. Gall newidiadau perthnasol gynnwys:

- oedi wrth recriwtio unigolyn;
- y swydd yn cael ei rhannu rhwng dau unigolyn;
- oedi i'r prosiect;
- yr angen am estyniad;
- yr orsaf yn wynebu'r risg o fynd oddi ar yr awyr neu brofi toriad yn y darllediad;
- deiliad swydd berthnasol yn gadael eu swydd.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Rhaid i'r trwyddedai hysbysu Ofcom fel y gall y panel benderfynu ar y camau gweithredu priodol. Er enghraifft, dim ond y panel all gymeradwyo newidiadau i'r pwrpas dynodedig neu roi estyniadau i'r cyfnod ariannu.

6.20 Os canfyddir nad yw derbynnydd grant wedi hysbysu Ofcom am newidiadau o'r fath ac yn parhau i wario'r arian, efallai y bydd gofyn iddynt ad-dalu rhan neu'r cyfan o'r grant, yn amodol ar asesiad Ofcom.